Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Unfed Adroddiad ar Ddeg ar gyfer y Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mai 2024

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Unfed Adroddiad ar Ddeg ar gyfer y Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mai 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Drakeford AS ***
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

* Ni chymerodd ran yn yr ystyriaethau o'r gŵyn

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 5**

**2. Ystyried y gŵyn ........ 6**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor ........ 7**

**4. Materion o Egwyddorion Cyffredinol ........ 8**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**3.** Daeth cwyn i law’r Comisiynydd yn ymwneud â methiant Aelod i ddatgan buddiant perthnasol.

**4.** Nododd yr Achwynydd ei farn y dylai’r Aelod fod wedi datgan buddiant cyn gwneud Datganiad 90 Eiliad, oherwydd bod aelod o’i staff cymorth hefyd yn gweithio i ymgynghoriaeth sy’n darparu gwasanaethau i sefydliad sy’n ganolog i bwnc y datganiad. Wrth wneud hynny felly, methodd yr Aelod â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 13.8a.

**5.** Daeth sylwadau i law’r Comisiynydd oddi wrth yr Aelod a’r Achwynydd cyn gwneud y gŵyn yn dderbyniadwy.

**6.** Cyfarfu’r Pwyllgor ar 15 Ebrill 2024 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i’w gasgliad mewn perthynas â’r gŵyn hon.

**7.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys y rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau anhysbysrwydd y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon yn unol â'r Weithdrefn.

**8.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**9.** Darparwyd copi o’r adroddiad hwn i’r Aelod dan sylw ac i’r Achwynydd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**10.** Bu'r Pwyllgor yn trafod p'un a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

**11.** Wrth ystyried a dorrwyd rheolau, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**12.** Cyflwynodd yr Aelod a'r Achwynydd sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

**13.** Roedd adroddiad y Comisiynydd yn nodi bod yr Aelod wedi gwneud Datganiad 90 Eiliad yn 2020 ac nad oedd datganiad o fuddiant perthnasol yn ei rhagflaenu. Ar adeg gwneud y datganiad, roedd yr Aelod yn cyflogi aelod o staff a oedd hefyd yn gweithio i ymgynghoriaeth am gyfnod o amser rhwng 2019 a 2020. Roedd gan yr ymgynghoriaeth drefniant cytundebol am chwe mis yn 2018 gyda'r sefydliad sy'n gysylltiedig â Datganiad 90 Eiliad yr Aelod (a wnaed yn 2020).

**14.** Daeth y Comisiynydd i'r casgliad a ganlyn:

> *"…the Member did not have any relevant interest which she was under a duty to declare before making [the] 90 Second Statement and that [the Member] did not fail to comply with Standing Order 13.8A or with any other relevant provision.*

Wedi ystyried y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

# 4. Materion o Egwyddorion Cyffredinol

**15.** Gwnaed y gŵyn hon i'r Llywydd yn y lle cyntaf gan ei bod yn ymwneud â busnes y Senedd.

**16.** Cyfeiriodd y Llywydd y gŵyn at y Comisiynydd i'w hymchwilio yn unol â pharagraff 3 o'r Cod Ymddygiad. Dyma'r tro cyntaf i'r Llywydd gyfeirio cwyn o'r fath. Nid yw'r Weithdrefn yn nodi darpariaeth ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau o'r fath o dan y Cod, ac felly gofynnodd y Comisiynydd am gyngor cyfreithiol ar sut i symud ymlaen. Cynghorwyd y Comisiynydd i ystyried yr Achwynydd a'r Llywydd, oni bai nad oedd yn dymuno hynny, fel achwynwyr. Ar 30 Tachwedd 2023, hysbysodd y Llywydd y Comisiynydd nad oedd yn dymuno cael ei hystyried fel achwynydd.

**17.** Nododd y Pwyllgor sylwadau gan yr Aelod ynghylch y broses ar gyfer gwirio hunaniaeth achwynwyr, a bydd yn ystyried y mater hwn ar wahân.